

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	Pwyllgor Craffu Gofal
DYDDIAD Y CYFARFOD	13/09/2018
TEITL YR EITEM	Diweddariad: Gwasanaethau Anabledd Dysgu
AELOD CABINET	Gareth Roberts

1. Ein Gweledigaeth i Wynedd

Ysbrydolir ein gweledigaeth gan ddull eclecticig o ddarparu gwasanaeth yn seiliedig ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r theori systemau (Pincus & Minahan, 1973), grymuso, ymyraethau datrys problemau a chanolbwyntio ar gryfderau. Yn fwy penodol, mae'r gwasanaethau bellach yn cael eu siapio a'u datblygu i ddarparu ymyraethau sy'n canolbwyntio ar ddilyniant, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth ymddygiad cadarnhaol (Carr & Sidener 2002).

Mae cefnogaeth weithredol yn canolbwyntio ar roi dilyniant anghenion yn ganolog i'r holl ymyraethau, sydd yn ei hanfod yn grymuso defnyddwyr gwasanaeth i fyw bywydau bodlon. Mae cefnogaeth weithredol yn rhan allweddol o ataliad sylfaenol o fewn cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol (PBS), a seiliwyd ar y cysyniad fod gwelliannau mewn ansawdd bywyd yn golygu gostyngiad mewn ymddygiad heriol (Allen, 2011; Allen et al; 2008, DoH, 2007; La Vigna et al 1989, Toogood et al; 2009, 2011). Mae Cefnogaeth Weithredol a PBS yn rhannu'r un tarddiad ac yn darparu ffordd i staff weithredu gwerthoedd yn ymarferol ac wedi eu seilio ar dystiolaeth.

Mae gweledigaeth Gwynedd i'r dyfodol yn canolbwyntio ar ddilyniant a galluogi i annog annibyniaeth yr unigolyn. Golyga hyn bod y cymorth gan ein gwasanaethau wedi ei ddylunio i helpu dinasyddion i ganolbwyntio ar eu cryfderau a'r hyn y medrant ei gyflawni yn ddiogel ar eu pennau eu hunain. Fel arfer, mae'r canlyniadau yn gwella ac mae'r costau yn lleihau oherwydd y mecanwaith cefnogi o 'symud ymlaen'. Felly, canolbwyntir ar helpu dinasyddion i feddu/ail-feddu ar sgiliau byw yn annibynnol.

Ein nod ar gyfer y gwasanaeth yw datblygu gwasanaeth sy'n rhoi cyfleodd lleol i bob oedolyn sydd ag anabledd dysgu, gan gynnwys y rheini ag anghenion cymhleth. Canolbwyntir ar ddatblygu canolfannau cymuned lleol ar draws Gwynedd i alluogi i'r dinasyddion y cefnogwn fod yn rhan o'u cymunedau lleol, ac i roi'r cyfle i ddatblygu perthnasau a gwella'u 'sgiliau bob dydd'.

2. Adroddiad Arolygiad AGGCC ac AGIC 2016

Yn ystod diwedd 2015 a dechrau 2016 cwblhaodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) adolygiad cenedlaethol o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan Wasanaethau Anabledd Dysgu yng Nghymru. Canolbwyntiodd yr arolygiad ar werthuso ansawdd, effeithlonrwydd a diogelwch y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i oedolion ag anableddau dysgu.

I grynhoi, dangosodd prif ganfyddiadau'r arolygiad nad yw moderneiddio gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu wedi bod yn flaenoriaeth gorfforaethol; bod trefniadau cydweithio gweithredol da gydag Iechyd; bod angen gwella arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol y gwasanaeth; bod angen gwella a datblygu trefniadau sicrwydd ansawdd ar draws y Gwasanaethau Oedolion; bod angen system adolygu gadarn yn ei lle i sicrhau bod unigolion yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir, yn y lle cywir, am y pris cywir. Drwyddo draw, gwnaeth yr arolygiad sylw ar ymroddiad y rheolwyr Gofal (Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) i ddatblygu perthnasau cadarnhaol gyda phobl a gefnogir gan y gwasanaethau a chydweithwyr. Roedd hon yn neges gyson yn yr arolygiad, ac mae ansawdd gwasanaethau anableddau dysgu'r Awdurdod yn dibynnu'n bennaf ar waith timau ardal.

3. Argymhellion a diweddariad ar gynllun gweithredu yr arolygiad

Argymhelliad	Diweddariad
1. <i>Dylai'r awdurdod lleol roi mwy o flaenoriaeth i gynllunio i gwrdd ag anghenion pobl ag anableddau dysgu. Mae angen arweinyddiaeth i roi cyfeiriad ar gyfer gwella, cymorth proffesiynol ar gyfer staff, ac ymgysylltiad eang gyda rhanddeiliaid.</i>	Yn dilyn yr arolygiad, penodwyd Uwch Reolwr newydd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am wasanaethau anableddau dysgu yng Ngwynedd, gan gynnwys y ddarpariaeth darparu mewnol anableddau dysgu. Ar ôl y penodiad hwn, gwnaed newidiadau arwyddocaol, gan gynnwys penodi Rheolwr Sirol newydd, a phenodi tri Arweinydd Ymarfer, dau Reolwr Darparwyr a Datblygu, a Rheolwr Prosiect. Yn ei hanfod, mae'r gwasanaeth wedi cael Tîm Rheoli Anabledd Dysgu newydd ers 2016. Mae'r tîm hwn yn cyfarfod ddwywaith y mis ac yn gweithio i gynllun sy'n seiliedig ar yr asesiad anghenion

	<p>poblogaeth, gyda ffocws diwygiedig ar brosiectau datblygu a moderneiddio. Mae uno'r uned darparu fewnol i oedolion ag anableddau dysgu a'r tîm rheoli achos wedi ei gwblhau erbyn hyn, a phob aelod staff allweddol wedi'u cyd-leoli. Yn ogystal, sefydlwyd y Tîm Cefnogaeth Weithredol a PBS drwy arian ICF yn 2017 i weithio am gyfnod cyfyngedig i osod arfer yn seiliedig ar Gefnogaeth Weithredol ac egwyddorion PBS ar draws ein darpariaeth fewnol ac allanol. Rydym nawr yn canolbwyntio ar gwblhau ailstrwythuro ein darpariaeth fewnol a rhoi tîm newydd mewn grym ym mis Ebrill 2018 (drwy arian grant) i ganolbwyntio ar elfennau ataliol ein gwaith, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth.</p>
<p>2. <i>Dylai'r awdurdod lleol sefydlu sianeli cyfathrebu er mwyn ymgysylltu â phobl, teuluoedd a gofalwyr mewn modd ystyrlon, gan ddefnyddio gwasanaethau eiriolaeth yn ôl yr angen.</i></p>	<p>Sefydlodd y gwasanaeth ethos newydd o hyrwyddo sesiynau rheolaidd ar ymgysylltu a arweinir gan unigolyn yn 2016. Mae'r sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma wedi canolbwyntio ar 'faterion bob dydd', datblygu ein canolfan gymunedol yn Arfon, ILF, ein gosodiadau preswyl a chyfleoedd dydd. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n gwasanaeth eiriolaeth â chomisiwn. Mae gennym hefyd ddau unigolyn o Wynedd wedi'u hymgorffori fel rhan o aelodaeth ein partneriaeth gwasanaeth trawsffurfio.</p>
<p>3. <i>Mae angen cynllunio strategol gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu dyheadau a chynlluniau hirdymor. Dylid datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion.</i></p>	<p>Mae cysylltiadau cryfach wedi'u gweithredu gyda'n cydweithwyr Iechyd ar draws ein darpariaeth gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'n harweinydd Iechyd Sirol, yr Uwch Reolwr a'r Rheolwr Sirol. Cynhelir cyfarfodydd tîm ar y cyd hefyd, gydag Iechyd yn aelod craidd o'n cyfarfodydd Un Pwynt</p>

	<p>Mynediad (SPOA) a chyfarfodydd Amlasiantaethol (MDT).</p> <p>Mae cynllun strategol ar y cyd (2018-2021) wedi'i ddatblygu erbyn hyn, fel deilliant i'n hasesiad anghenion poblogaeth. Crëwyd y cynllun gwaith hwn ar y cyd, fel rhan o waith y Grŵp Trawsfurfio amlddisgyblaethol.</p>
<p>4. <i>Dylai'r awdurdod lleol ddatblygu a gwella ei gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau, a'u cynnwys yn y gwaith o lunio datganiad o sefyllfa'r farchnad ac mewn trafodaethau am strategaeth gomisiynu ar y cyd gyda'r sector iechyd.</i></p>	<p>Ers mis Hydref 2016, mae'r gwasanaeth wedi datblygu grŵp trawsfurfio amlddisgyblaethol, a phob darparwr wedi cael gwahoddiad i gyfrannu a mynychu pob cyfarfod. Yn ogystal, mae'r Uwch Reolwr Perthnasol (Anableddau Dysgu a Busnes) yn hwyluso cyfarfodydd unigol nawr gyda phob darparwr ddwywaith y flwyddyn.</p>
<p>5. <i>Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau ar gyfer diogelu oedolion, gan sicrhau bod eglurder o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau a threfniadau sicrwydd ansawdd.</i></p>	<p>Sefydlwyd Uned Diogelu ac Ansawdd ar gyfer gwasanaethau oedolion ym mis Tachwedd 2016. Mae gan yr Uned gynllun gwaith clir ar draws y Gwasanaethau Oedolion.</p>
<p>6. <i>Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r ffordd y mae'n diogelu hawliau pobl lle mae eu rhyddid yn cael ei amddifadu er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn iawn.</i></p>	<p>Erbyn hyn, mae gan yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd gydlynnydd DoLS a dau asesydd DoLS. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn rhagweithiol wrth hyfforddi nifer o aelodau staff i fod yn aseswyr achrededig. Cefnogir gwaith yr Uned hefyd gan gynrychiolydd cyfreithiol ynghylch ei gwaith DoLS ac achosion llys.</p>
<p>7. <i>Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff perfformiad ei reoli'n briodol, a bod cyngor proffesiynol ar waith i gefnogi'r gweithlu.</i></p>	<p>Cyflawnwyd y weithred hon drwy weithredu'r camau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu cynllun gwaith anableddau dysgu clir; • Sefydlu tîm rheoli anableddau dysgu i ddarparu cyfeiriad strategol i'r ffordd yr ydym yn cyflawni'r gwasanaeth; • Sefydlu tair swydd Arweinydd Ymarfer

	<p>newydd;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd tîm misol gyda'r holl staff; • Goruchwyliaeth fisol ar gyfer pob aelod tîm gwaith cymdeithasol; • Adolygu trefniadau goruchwyliaeth, staffio a chofnodi ar draws ein darparwr mewnol; • Sefydlu SPOA amlasiantaethol; • Datblygu a hyrwyddo gwybodaeth a sgiliau arbenigol mewn meysydd penodol o waith ymysg ein gweithlu, er enghraifft, gwaith Iechyd Meddwl a Fforensig. Rydym hefyd yn sicrhau bod ein staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant a datblygiad arbenigol o fewn eu meysydd arbenigol detholedig; • Wrth ganolbwyntio ar yr uchod, rydym wedi adeiladu ar barhad ein gweithlu craidd o fewn y Gwasanaeth.
--	---

4. Casgliad

I gloi, mae'r gwasanaeth yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol drwy ymroddiad parhaus a phenderfyniad ei weithlu. Mae'r agwedd gadarnhaol yn parhau, ynghyd ag ethos sy'n canolbwyntio ar gofleidio newid, rhannu syniadau a datblygu gwasanaethau er budd ein dinasyddion a'r gymuned ehangach. Mae sawl prosiect moderneiddio ar y gweill, sy'n canolbwyntio ar gael canlyniadau cadarnhaol i'r oedolion yr ydym yn eu cefnogi, eu gofalwyr, a'r gymuned. Rydym wedi parhau i gyflawni ein targedau effeithlonrwydd gan mai ein ffocws yw cyflawni gwasanaethau 'gwerth gorau'.